**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
—
**National Assembly for Wales**
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee

Lesley Griffiths AC,

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig,

Llywodraeth Cymru

3 Hydref 2017

Annwyl Lesley

Y Llanw'n Troi: adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar ddull Llywodraeth Cymru o reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPA)

Diolch am eich ymateb i adroddiad y Pwyllgor, sydd ynghlwm wrth y llythyr hwn fel Atodiad. Cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn am ragor o wybodaeth am sawl mater a godwyd gennych yn eich ymateb.

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar am y ffordd y gwnaethoch ymgysylltu ag ef yn ystod yr ymchwiliad hwn. Fodd bynnag, mae'ch ymateb wedi codi nifer o faterion sydd angen eu hegluro.

Yn ystod yr ymchwiliad, cydnabu llawer o randdeiliaid y cynnydd a gafwyd yn y blynyddoedd diwethaf o ran rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Dyma'r prif faterion a godwyd gyda'r Aelodau:

- yr angen i Lywodraeth Cymru gymryd rôl arweinyddiaeth gryfach,
  - yr angen am lefelau priodol o adnoddau, staffio a chyllid, a'r angen am fwy o dryloywder ac effeithlonrwydd yn y gwaith sydd eisoes ar y gweill.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCCERA
0300 200 6565

Yn anffodus, nid yw'ch ymateb yn ymdrin yn ddigonol â nifer o'r pryderon hyn ac nid yw'n ymdrin yn llawn â'n hargymhellion. Dyma nodi nifer o gwestiynau isod; gobeithio y byddant yn eich galluogi i egluro'ch sefyllfa.

Argymhelliad 1 - Mae'r Pwyllgor yn argymell er mwyn i Gymru wireddu manteision ei MPAs, rhaid rheoli'r safleoedd yn effeithiol. Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnig arweiniad yn hyn o beth drwy ddatblygu, yn ddi-oed, strategaeth MPAs, a sicrhau bod pob awdurdod rheoli, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn ymwneud yn frwd â rheoli MPAs ac yn cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau.
Ymateb Llywodraeth Cymru - Derbyn

Fel y gwyddoch, yn ystod ein hymchwiliad fe glywsom feirniadaeth gan randdeiliaid ynghylch diffyg arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru. Er i Lywodraeth Cymru dderbyn yr argymhelliad, nid oes dim yn yr ymateb i awgrymu y bydd yn gwneud unrhyw beth yn wahanol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn. A allwch chi egluro sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid?

Nid yw'r ymateb yn esbonio'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod pob awdurdod rheoli, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn cymryd rhan weithredol o ran rheoli MPAs a chyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau. Rhowch fanylion am y camau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i roi effaith i'r rhan hon o'r argymhelliad.

A allech chi roi copi o Gynllun Gweithredu Blaenoriaethau Rheoli'r MPAs i'r Pwyllgor, y cyfeirir ato yn eich ymateb, sef yr hyn a gaiff ei ddefnyddio o fis Ebrill 2018? Os na allwch ddarparu copi, a allwch nodi pryd yr ydych yn disgwyl i'r cynllun gael ei gwblhau?

Argymhelliad 2 - Mae'r Pwyllgor yn argymell na ellir rheoli MPAs yn effeithiol heb y lefel briodol o adnoddau, gan gynnwys cyllid a staffio. Rhaid i Lywodraeth Cymru: sicrhau bod ganddi ddigon o

staff i gyflawni ei chyfrifoldebau ym maes cadwraeth y môr;

cyflwyno cynigion ar gyfer cyllido dull gweithredu sy'n seiliedig ar ardaloedd, a sicrhau bod gan bob ardal reoli ei swyddog dynodedig ei hun; a

sicrhau bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru

ddigon o adnoddau i gyflawni ei gyfrifoldebau o ran rheoli MPAs

a gwella Rhwydwaith Natura 2000 Cymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru - Derbyn mewn egwyddor

Mae'r Pwyllgor yn nodi'ch sylwadau bod holl staff Is-adran y Môr a Physgodfeydd yn ymwneud â rheoli morol cynaliadwy i ryw raddau. A allwch gadarnhau eich bod yn fodlon bod y lefelau staffio presennol yn ddigonol i gyflawni cyfrifoldebau cadwraeth forol Llywodraeth Cymru?

Mae'r argymhelliad hwn yn cyfeirio at yr angen i gyflwyno cynigion ar gyfer ariannu dull ar sail ardal. Pa gamau yr ydych chi'n eu cymryd i ymateb i hyn? Mae'r Pwyllgor yn nodi eich bod yn cefnogi barn y Grŵp Llywio, a ddaeth i'r casgliad mai mwy cost-effeithiol a gwell o ran gwerth am arian fyddai canolbwyntio ar brosiectau penodol, yn hytrach na dull ar sail ardal. A allwch roi i'r Pwyllgor fanylion unrhyw ddadansoddiad cost a budd a wnaed gan y Grŵp o'r gwahanol ddulliau posibl?

Cyn gynted ag y bo modd, a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am asesiad y Grŵp Llywio ynghylch a oes angen mwy o gydweithio a rhannu arfer gorau ac, os felly, sut y caiff hynny ei gyflawni? A yw'n fwriad mynd i'r afael â hyn yn y Cynllun Gweithredu ar Flaenoriaethau Rheoli MPAs?

Mae'ch ymateb yn cyfeirio at allu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol o fewn ei ddyraniad cyllid presennol. A ydych yn disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru gyflawni unrhyw swyddogaethau anstatudol mewn perthynas ag MPAs, megis gwella Rhwydwaith Natura 2000 Cymru? A ydych yn fodlon y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu ymgymryd â gwaith o'r fath heb gyllid ychwanegol?

Dywedasoch wrth y Pwyllgor y byddech yn codi materion cyllid yn uniongyrchol gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yn eich cyfarfodydd misol. Beth yw canlyniadau'r

trafodaethau hynny?

Argymhelliad 3 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ymgysylltu'n well â rhanddeiliaid a'r cyhoedd a gweithredu mewn ffordd fwy tryloyw ac effeithlon, gan gynnwys cyhoeddi gwybodaeth am weithgareddau'r grwpiau arbenigol y mae'n eu harwain. Dylai rhanddeiliaid gael ymwneud yn llawn â datblygu'r strategaeth MPAs. Rhaid i Lywodraeth Cymru gryfhau ymwybyddiaeth o MPAs ymhlith y cyhoedd.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Derbyn

Yn ystod ein hymchwiliad, roedd rhanddeiliaid yn teimlo yn gryf bod diffyg tryloywder mewn perthynas â chyfarfodydd y grwpiau niferus iawn sy'n ymwneud â'r maes hwn. Mae'r Pwyllgor yn falch eich bod wedi derbyn yr argymhelliad, ond nid oes sôn yn eich ymateb ei bod yn fwriad gennych wneud unrhyw beth yn wahanol yn y dyfodol. O gofio eich bod wedi derbyn yr argymhelliad hwn, a allwch chi egluro pa gamau y byddwch yn eu cymryd i fynd i'r afael â phryderon rhanddeiliaid?

Mae'r argymhelliad hefyd yn cyfeirio at sicrhau bod Llywodraeth Cymru a'r grwpiau arbenigol niferus iawn y mae'n eu harwain yn gweithredu mewn dull mwy effeithlon. Pa waith a wnaed i sicrhau bod pob grŵp arbenigol yn angenrheidiol a bod gan bob un amcanion clir heb orgyffwrdd diangen o ran eu cyfrifoldebau?

O ran ymgysylltu ehangach, soniwyd am gamau penodol yn 2018 fel rhan o ymgyrch Blwyddyn y Môr. Beth yw cynlluniau eich adran ar gyfer ymgysylltu ehangach yn 2018 ac ar ôl hynny?

Argymhelliad 4 – Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth orfodi sy'n seiliedig ar risgiau ac sy'n mynd i'r afael â'r holl bwysau sydd ar MPAs, gan gynnwys ansawdd dŵr, sbwriel, pwysau yn sgil gweithgareddau hamdden; pysgodfeydd a chasglu adnoddau morol sydd heb eu rheoleiddio; a dylai symud yn gyflym i roi camau rheoli ar waith yn yr MPAs y gwyddys eu bod dan fygythiad.

Ymateb Llywodraeth Cymru - Derbyn mewn egwyddor

Yn eich ymateb i'r argymhelliad hwn, rydych chi'n cyfeirio at y "Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Rheoli ein Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig". Ai'r un peth â'r Cynllun Gweithredu ar Flaenoriaethau Rheoli MPAs yw hyn, sef y cynllun y cyfeiriwyd ato yn eich ymateb i Argymhelliad 1? Os mai cynllun gwahanol ydyw, a allwch chi egluro ei bwrpas ac a yw'n gynllun Llywodraeth Cymru, ac a fyddai modd i'r Pwyllgor gael copi?

Yn eich ymateb, nodir bod Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithredu dull gorfodi morol sy'n seiliedig ar risg ac ar wybodaeth. A allwch roi enghreifftiau diweddar o ymyriadau llwyddiannus o ganlyniad i'r dull ar sail risg?

Argymhelliad 5 - Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid sicrhau bod data, tystiolaeth ac ymchwil ar gael yn elfen ganolog o ddatblygu a rheoli polisi MPAs. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu partneriaeth gwyddor môr yng Nghymru i ddwyn diwydiant, academia a rhanddeiliaid ynghyd. Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod ganddi ddata ac ymchwil effeithiol ar waith i reoli MPAs, gan gynnwys gwaith monitro a gwyliadwriaeth. Ymateb Llywodraeth Cymru - Derbyn mewn egwyddor

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai diwydiant, academia a rhanddeiliaid fod yn rhan o ddull Llywodraeth Cymru. A allwch gadarnhau i ba raddau y mae'r tri grŵp hyn yn ymwneud â gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru gyda'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur, fel yr amlinellir yn eich ymateb?

Pa asesiad a wnaed gennych o'r potensial i sefydlu partneriaeth gwyddoniaeth forol Cymru, gan ddod â diwydiant, academia a rhanddeiliaid ynghyd?

Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau eich bod yn fodlon y bydd gan gyrff a sefydliadau perthnasol ddigon o adnoddau i ddehongli'r data sy'n cael eu

casglu? A allwch nodi sut y byddwch yn sicrhau bod monitro ac ymchwil gwyddoniaeth forol yn cael ei gydlynu a'i fod yn canolbwyntio ar eich meysydd blaenoriaeth?

| |
|---|
| Argymhelliad 6 – Mae'r Pwyllgor yn argymell wrth ddynodi MPAs yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer y gwaith rheoli, monitro, goruchwylio a gorfodi y bydd gofyn ei wneud ar safle(oedd) a sut y darperir adnoddau o'r fath.<br>Ymateb Llywodraeth Cymru – Derbyn |

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'ch ymateb i'r argymhelliad hwn. Fodd bynnag, nid yw'r ymateb yn ymdrin â phwynt olaf yr argymhelliad, sy'n gofyn i Lywodraeth Cymru nodi sut y darperir adnoddau ar gyfer rheoli, monitro, gwyliadwriaeth a gorfodi. A allwch roi gwybod i'r Pwyllgor am y camau y byddwch yn eu cymryd i roi effaith i'r rhan hon o'r argymhelliad?

| |
|---|
| Argymhelliad 7 – Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddiffinio'r hyn y mae Rhwydwaith Ecolegol Gydlynol o MPAs yn nyfroedd Cymru yn ei olygu a dylai gydweithio â rhanddeiliaid i fynd i'r afael â bylchau yn y rhwydwaith.<br>Ymateb Llywodraeth Cymru – Derbyn |

Yn eich ymateb, cyfeirir at eich datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 2 Mai 2017, lle dywedasoch: "Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion weithio mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid morol i ystyried ac argymell y camau sy'n angenrheidiol ar gyfer mynd i'r afael â'r bylchau sydd wedi dod i'r amlwg. Rwyf wedi gofyn i'r gwaith roi ystyriaeth i'r bylchau a nodwyd yn rhanbarth dyfroedd môr mawr Cymru hefyd, a fydd yn dod yn gyfrifoldeb i Weinidogion Cymru ym mis Ebrill 2018."

O ystyried mor dynn yw'r dyddiad terfyn ar gyfer y gwaith hwn, byddem yn ddiolchgar am y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd cyn gynted ag y bo modd.

Mae’r Pwyllgor yn argymell mai un o gonglfeini rheoli MPAs yw sicrhau atebolrwydd a llwybr at gyfiawnder. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod trefniadau yn y dyfodol yn unol â Chonfensiwn Aarhus ac nad ydynt yn rhy ddrud i ymgeiswyr.

Ymateb Llywodraeth Cymru - Derbyn

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech chi ein diweddaru ynghylch cynnydd yn y maes hwn.

Argymhelliad 9 - Mae’r Pwyllgor yn argymell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru asesu effaith debygol gadael yr Undeb Ewropeaidd ar MPAs Cymru, gan gynnwys a oes modd cysoni’r drefn ddynodi a rheoli, gan ymrwymo i sicrhau na chollir dim gwarchodaeth o dan drefniadau’r dyfodol. Rhaid iddo hefyd ofyn am gytundeb â Llywodraeth y DU ynghylch sut y caiff amddiffyniadau amgylcheddol morol eu rheoli'n gydlynol mewn ardaloedd morol trawsffiniol.

Ymateb Llywodraeth Cymru - Derbyn

Gan eich bod wedi derbyn yr argymhelliad hwn, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi manylion i'r Pwyllgor am yr asesiadau a wnaed gennych o effaith ymadael â'r UE ar MPAs Cymru.

A allech hefyd roi manylion i'r Pwyllgor am unrhyw ystyriaeth gynnar o newidiadau polisi o ganlyniad i'n hymadawiad â'r UE, gan gynnwys cysoni posibl o ran dynodi a rheoli?

A allwch roi i'r Pwyllgor y manylion diweddaraf am y gwaith sydd ar y gweill neu drafodaethau sy'n mynd rhagddynt mewn perthynas â rheoli ardaloedd morol trawsffiniol?

Argymhelliad 10 – Mae’r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod adroddiadau am gyflwr a statws safleoedd MPAs Cymru sy’n ofynnol ar hyn o bryd o dan ddeddfwriaeth Ewrop yn cael eu paratoi’n rheolaidd ar ôl i’r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, gan gyhoeddi a darparu adroddiadau i awdurdodau rheoli’n brydlon.
Ymateb Llywodraeth Cymru – Derbyn mewn egwyddor

Yn eich ymateb, cyfeirir at brosiect i asesu sut y gall Cyfoeth Naturiol Cymru gynhyrchu adroddiadau am gyflwr safle yn fwy rheolaidd. A allwch roi arwydd o bryd y bydd y prosiect hwnnw'n dod i ben ac a allwch rannu casgliadau'r prosiect hwnnw â'r Pwyllgor maes o law?

Argymhelliad 11 – Mae’r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru

gydweithio â Llywodraeth y DU i sicrhau bod adnoddau pysgodfeydd Cymru a buddiannau fflyd Cymru yn cael eu gwarchod yn llawn yn y trafodaethau i adael yr Undeb Ewropeaidd. Dylai trefniadau rheoli pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol ystyried Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a strategaeth MPAs Cymru. Ymateb Llywodraeth Cymru – Derbyn

Nodir yn eich ymateb y byddwch yn parhau i weithio gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill a Llywodraeth y DU i sicrhau dyfodol diwydiant pysgota Cymru. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am hynt y gwaith hwn? A allech hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am eich mewnbwn i Fil Pysgodfeydd arfaethedig Llywodraeth y DU?

Argymhelliad 12 – Mae’r Pwyllgor yn argymell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru egluro sut y mae’n bwriadu mynd i’r afael â’r diffyg cyllid a all fod ar gael ar gyfer gwaith MPAs gan fod y cyllid hwnnw ar hyn o bryd yn dod o gronfeydd yr UE, megis Cronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop a LIFE-Nature.
Ymateb Llywodraeth Cymru – Gwrthod

Mae'r Pwyllgor yn nodi eich esboniad dros wrthod yr argymhelliad hwn. Pa asesiad a wnaethpwyd gennych o lefelau'r cyllid sydd eu hangen yn lle'r arian sy'n dod ar hyn o bryd o gronfeydd yr UE? Ar ben hynny, sut y bydd colli'r cronfeydd hynny yn effeithio ar waith MPAs yng Nghymru?

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn i'r Pwyllgor Busnes drefnu dadl yn y Cyfarfod Llawn ar adroddiad y Pwyllgor ar 8 Tachwedd. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r llythyr hwn erbyn 1 Tachwedd, fel y gall eich ymateb lywio dadl y Cyfarfod Llawn.

Yn gywir



Mike Hedges AC

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig